CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION IONAWR 8, 2019

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Ionawr 8, 2019 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), John Hughes, Simon Evans, Elfed ap Gomer, Llinos Williams, Carwyn Evans. Hefyd Peredur Jenkins, Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Gethin Williams, Gareth Ellis.

2. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Rhagfyr 11, 2018

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Rhagfyr 11, 2018

Eitem 5.f. Wedi'r ymchwiliad cafwyd ei wneud gan HSBC Safeguard i fusnes y Cyngor, cafwyd wybod gan Swyddog banc HSBC Dolgellau bod banc HSBC am barhau gwneud busnes gyda ni.

Eitem 10.d.i Lythyr ateb (20/12/2018) oddi wrth Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bod y twll sydd yn wyneb y ffordd ar gyffordd Llanfachreth / y ffordd i hen bont Llanelltyd wedi cael ei lenwi.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (27/11/2018) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen gwybod ein praesept am 2019 / 2020. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener, Ionawr 25, 2019.

Praesept 2017 /2018 - £7,500.00. Praesept 2018 /2019 - £7,500.00.

Rhoddwyd manylion o'r amcan gyfrif costau'r Cyngor am 2018 / 2019 a manylion at praesept 2019 / 2020 i'r aelodau.

Penderfynwyd derbyn amcan gyfrif costau'r Cyngor ac i'r praesept fod yn £7,500 fel y llynedd.

b. Bil (20/12/2018) am £75 oddi wrth John A. Owen am agor bedd ar gyfer claddu llwch yn y fynwent ar 11/12/2018.
Penderfynwyd talu'r bil.

c. Llythyr (12/12/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am newidiadau i

gyflog Clercod ar gyfer 2019/2020 o 1/4/2019. Mae'r cyflog yn unol â Cytundeb Cyflog Cenedlaethol 2019-2020.

Cyflog presennol y Clerc yw £10.107 yr awr ar bwynt SCP 19, h.y. £10.107 x 12 x12 = £1,455.40 y flwyddyn.

Cyflog newydd am 2019/20 fydd £10.37 yr awr ar bwynt SCP 19, h.y. £10.37 x 12awr x 12mis = £1,493.28 y flwyddyn. Mae pwynt SCP 19 wedi newid i SCP 8.
Penderfynwyd derbyn y newid.

ch. Balans yn y banc ar 29 Rhagfyr, 2018: £8,572.80.

6. Mynwent Llanelltyd

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/65/279D. Cais ôl-weithredol i gadw adeilad amaethyddol. Tir ger yr A470(T). Maes Mawr, Llanelltyd.
Penderfynwyd cefnogi'r cais.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (14/12/2018) oddi wrth Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd cyfrifoldeb rheolaeth Canolfannau Hamdden Gwynedd yn cael ei drosglwyddo i gwmni newydd sydd ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd.

Dwedodd Peredur Jenkins mae'n rhatach i gwmni newydd sydd ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd i redeg Canolfannau Hamdden Gwynedd oherwydd y safiant bydd yn cael ei wneud ar TAW.

b. Llythyr (1/1/2019) oddi wrth Theatr y Ddraig a Canolfan Gymunedol Abermaw. Maent angen cymorth arianol. Maent yn disgwyl £450 gennym ni.
Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Cafwyd trafodaeth gyda Swyddog o'r Heddlu ŷnglyn â'r parcio wrth yr Ysgol. Roedd y swyddog o'r farn ni all sefyllfa parcio wrth yr Ysgol cael ei wella. Mae rhaid i bobol cymryd gofal lle maent yn parcio eu cerbydau.

10. Materion Brys

a. Penderfynwyd gwneud ymoliadau gydag Ivor Thompson, Meurig Ashton ac XT Plant Ltd (Hendre Hall, Llwyngwril, Gwynedd, LL37 2JF) i gael pris i wella'r llwybr cyhoeddus sy'n arwain o gyffordd Llanfachreth / y ffordd i hen bont Llanelltyd i'r golff. Mae'r gwaith yn golygu torri'r tyfiant yn ei ôl i led llawn y llwybr a charthu'r dail a'r pridd oddi ar wyneb y tarmac.